

## » Darganfod mwy am gyfyngiadau lleol y coronafeirws

Dilynwch y cyngor ar gyfer y coronafeirws (COVID-19)

Cuddio X

Hafan > Addysg a sgiliau > Rhedeg a rheoli ysgol > Llywodraethiant ysgolion > Rheoli ysgolion >

Newidiadau i nifer y sesiynau ysgol 2020 i 2021: coronafeirws >

Diwygio nifer y sesiynau ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2020 i 2021 [HTML]

CANLLAWIAU

# Diwygio nifer y sesiynau ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2020 i 2021

Cyngor i ysgolion ac awdurdodau lleol ar sesiynau gofynnol yn 2020 i 2021.

Cyhoeddwyd  
gyntaf:  
19 Awst 2020

Diweddarwyd  
ddiwethaf:  
19 Awst 2020

## Cynnwys

### Disgrifiad

#### Camau gweithredu ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol

## Disgrifiad

Mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu isafswm penodol o sesiynau ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

Mae'r Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 yn darparu bod pob diwrnod y mae ysgol yn cyfarfod i'w rannu'n ddwy sesiwn sydd i'w gwahanu gan doriad yng nghanol y diwrnod os nad oes amgylchiadau eithriadol yn golygu bod yn well peidio. Mae'n ofynnol cynnal o leiaf 380 o sesiynau ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol. Nid yw hyn yn cynnwys ysgolion meithrin.

Mae'r Rheoliadau'n caniatáu trin sesiynau pryd y mae ysgol wedi'i hatal rhag cyfarfod fel petaent wedi cyfarfod yn unol â'r bwriad. Maent hefyd yn darparu ar gyfer y nifer ychwanegol o ddyddiau hyfforddiant a ganiateir i ysgolion ac mae hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn ystyried newidiadau i'r system addysg fel hyfforddi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Agorodd ysgolion mewn tri awdurdod lleol – Conwy, Penfro a Phowys – am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf 2019 i 2020. Bydd yr ysgolion hyn yn cau am wythnos yn hwy yn ystod gwyliau hanner tymor yr hydref yn gyfnewid am yr wythnos ychwanegol hon.

Ar 9 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg gynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol. Disgwylir i ysgolion agor ar 1 Medi a chroesawu'r holl ddysgwyr yn ôl i'r ystafell ddosbarth erbyn 14 Medi. Mae llawer o ysgolion yn cynnal dyddiau cynllunio a pharatoi yn ystod wythnos gyntaf y tymor newydd. Mae'r rhain yn ogystal â dyddiau HMS a gynlluniwyd eisoes.

Felly, rydym wedi gwneud Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 i ddiwygio Rheoliadau 2003 mewn dwy ffordd:

- I ganiatáu i ysgolion a agorodd am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf yn y flwyddyn ysgol 2019 i 2020 gynnal o leiaf 370 o sesiynau yn ystod blwyddyn ysgol 2020 i 2021 yn hytrach nac o leiaf 380 o sesiynau
- I ganiatáu i hyd at 4 sesiwn gyfrif fel sesiynau pryd y cyfarfu'r ysgol os cawsant eu defnyddio ar gyfer y gwaith paratoi a chynllunio a oedd yn ofynnol i'w gwneud yn bosibl i ysgolion agor i bob dysgwr yn dilyn cwtogi ar eu gweithgarwch o ganlyniad i raddfa a throsglwyddiad y Coronafeirws. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu cynnal yn ystod pythefnos gyntaf blwyddyn ysgol 2020 i 2021

Nid oes unrhyw effaith ar weddill y gofynion a bennir yn Rheoliadau 2003.

## Camau gweithredu ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol

Dylai awdurdodau lleol lle'r agorwyd ysgolion am yr wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf eisoes fod wedi cyhoeddi dyddiadau diwygiedig eu tymhorau ar eu gwefannau, i nodi gwyliau estynedig hanner tymor yr hydref.

Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol lunio eu cynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol mewn dull sy'n sicrhau na amherir ymhellach ar addysg plant a phobl ifanc yn fwy nag sydd raid. Dylai fod yn flaenoriaeth gan bob ysgol ac awdurdod lleol i ystyried effaith cau ysgolion ar gyfer dyddiau paratoi a chynllunio ar ddysgwyr a'u rhieni.

Rhaid cadw at nifer gofynnol diwygiedig y sesiynau, yn unol â'r Rheoliadau.

Rydym hefyd wedi darparu cyngor i ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch datgymhwyso dros dro y rheoliadau sy'n rheoli [newidiadau i amserau sesiynau ysgolion](#).

### Cyhoeddwyd

#### gyntaf

19 Awst 2020

### Diweddarwyd

#### ddiwethaf

19 Awst 2020

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

← Rhannu'r dudalen hon

^ Nôl i dop y dudalen